Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Maer (Dirprwy Faer)

## Disgrifiad o'r Swydd

**1. Atebolrwydd**

- I'r Cyngor Llawn
- Dinasyddion Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

**2. Diben y Swydd a'r Gweithgareddau**

- **Gweithredu fel symbol awdurdod democrataidd y Cyngor**
  - Fel pennaeth seremonïol y Cyngor, bod yn anwleidyddol a chynnal gwerthoedd democrataidd y Cyngor
  - Cynrychioli'r Cyngor mewn digwyddiadau dinesig a seremonïol

- **Cadeirio cyfarfodydd y Cyngor**
  - Arwain cyfarfodydd y Cyngor, fel bod modd cynnal ei fusnes yn effeithiol
  - Sicrhau bod y Cyngor yn cynnal ei gyfarfodydd yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor.

- **Cynnal a hyrwyddo Cyfansoddiad y Cyngor**
  - Sicrhau y glynir at y Cyfansoddiad ac, os oes angen, llywodraethu ar ddehongliad y Cyfansoddiad

- **Llywodraethu mewnol, safonau moesol a phartneriaethau**
  - Hyrwyddo a chefnogi llywodraethu da'r Cyngor a'i waith
  - Cynnig arweinyddiaeth cymunedol a hyrwyddo dinasyddiaeth actif
  - Hyrwyddo a chefnogi llywodraeth agored a thryloyw
  - Cefnogi, a glynu at, berthnasau parchus, priodol ac effeithiol gyda chyflogeion y Cyngor
  - Glynu at God Ymddygiad Aelodau, Protocol Aelodau/Swyddogion a'r safonau ymddygiad uchaf mewn swydd gyhoeddus

- **Ymgysylltiad cymunedol**
  - Hyrwyddo cyfranogiad cyhoeddus ym musnes y Cyngor
  - Hyrwyddo'r Cyngor ym mhob agwedd ar y gymuned
  - Annog cydweithio rhwng bob sector o'r gymuned i wella'r gymuned yn ei chyfanrwydd

**3. Gwerthoedd:**

- Bod yn agored ac yn dryloyw

- Gonestrwydd ac unplygrwydd
- Goddefgarwch a pharch
- Cydraddoldeb a thegwch
- Derbyn gwahaniaethau diwylliannol
- Cynaliadwyedd

## Dirprwy Faer

- Cyflawni dyletswyddau'r Maer yn ei h/absenoldeb
- Cynorthwyo'r Maer mewn dyletswyddau penodol yn ôl yr angen